**Hysbysiad i Ganolfannau**

**Canllawiau i ganolfannau ar ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth**

**Cynhyrchwyd ar ran AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

Hoffai'r CGC a'r cyrff dyfarnu egluro'r defnydd o ddarllenydd mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth.

O 2019/20, gall darllenwyr nawr ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth.
Byddem yn disgwyl bod hyn yn cael ei wneud ar gyfer ymgeisydd nad yw'n gallu cael mynediad annibynnol at unrhyw destun na symbolau mewn cwestiynau, megis ymgeisydd â nam sylweddol ar y golwg nad yw'n gallu darllen Braille, nad yw'n gallu cael mynediad at ddiagramau cyffyrddol neu, oherwydd difrifoldeb ei nam, nad yw'n gallu cael mynediad at y papurau wedi'u haddasu a'u mwyhau safonol. Ni fyddai disgwyl i ddarllenydd ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau ar gyfer mwyafrif yr ymgeiswyr ag anawsterau dysgu neu anableddau eraill (a fyddai'n gallu darllen y symbolau/rhifau unigol). Yn yr achos hwn, byddai'r darllenydd yn pwyntio at y symbol.

Ystyr y term 'dadgodio' yw enwi'r symbol. Nid yw'n golygu esbonio pryd neu sut mae'r symbol yn cael ei ddefnyddio neu ddisgrifio'r symbol.

**Enghreifftiau o ddadgodio:**

| | |
|---|---|
| 356 | mae'r darllenydd yn dweud 'tri chant a phum deg chwech' |
| $CO_2$ | mae'r darllenydd yn darllen pob llythyren/rhif |
| $2^2$ | mae'r darllenydd yn dweud 'dau wedi'i sgwario' |
| $\leq$ | mae'r darllenydd yn dweud 'llai na neu'n hafal i' |
| $\in$ | mae'r darllenydd yn dweud 'yn elfen o' |
| $\infty$ | mae'r darllenydd yn dweud 'anfeidredd' |
| $\sqrt[3]{}$ | mae'r darllenydd yn dweud 'trydydd isradd' |
| $\theta$ | mae'r darllenydd yn dweud 'Theta' |
| $\int$ | mae'r darllenydd yn dweud 'Integryn' |

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod darllenwyr wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gallu dadgodio symbolau a thalfyriadau unedau yn gywir.

©CGC 2019 – Yn weithredol o 28 Hydref 2019